**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**
Head of Legal and Democratic Services
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

To:

Cynghorwyr: Gwyneth Ellis, Dave Healey, Dave Hughes, Barry Mellor, Dafydd Meurig, Nicola Roberts, Geoff Stewart, Dafydd Rhys Thomas a Dafydd Wyn Williams

CS/NG

Dydd Iau 24 Hydref, 2023

Nicola Gittins 01352 702345
nicola.gittins@flintshire.gov.uk

Dear Sir / Madam

Cynhelir Cyfarfod **CYD-BWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLOL GOGLEDD CYMRU** yn **VENUE CYMRU, LLANDUDNO** ar **DYDD LLUN, 24YDD HYDREF, 2023** am **2.00 PM** I drafod y materion canlynol.

Yn gywir

Steven Goodrum
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

## R H A G L E N

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGAN CYSYLLTIAD**

3 **PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD I'R CYDBWYLLGOR**

4 **CYMERADWYO COFNODION BLAENOROL** (Tudalennau 3 - 6)

County Hall, Mold. CH7 6NA
Tel. 01352 702400 DX 708591 Mold 4
www.flintshire.gov.uk
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NR
Ffôn 01352 702400 DX 708591 Mold 4
www.siryfflint.gov.uk

The Council welcomes correspondence in Welsh or English
Mae'r Cyngor yn croesawau gohebiaeth yn y Cymraeg neu'r Saesneg

5 **MATERION YN CODI O'R CYFARFOD BLAENOROL**

6 **ADRODDIAD DIWEDDARIAD GWASANAETHAU** (Tudalennau 7 - 20)

I ddiweddaru'r Aelodau ar agweddau gweithredol o chytundeb Parc Adfer.

7 **ADRODDIAD PROSIECT DAL CARBON** (Tudalennau 21 - 30)

I hysbysebu Aelodau ar ddatblygiadau yn gysylltiedig i ddal carbon, cyflwyniad i'w rhoi gan enfinium.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Ystyrir bod yr eitemau canlynol wedi'u heithrio yn rhinwedd Paragraff (au) 14 Rhan 4 o 12A Rhestredig Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd)

Mae'r adroddiadau yn cynnwys manylion yn ymwneud â materion ariannol y 5 cyngor. Mae'r manylion hynny yn fasnachol sensitif ac mae diddordeb y cyhoedd o ran gwarchod y sefyllfa fasnachol honno yn gorbwyso budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth yn ystod oes y contract.

8 **ADRODDIAD EITEMAU MASNACHOL** (Tudalennau 31 - 36)

I ddiweddaru'r Aelodau ar agweddau masnachol, cyfreithiol a chytundebol o gytundeb Parc Adfer.

9 **UNRHYW FATER ARALL**

NWRWTP

North Wales Residual Waste Treatment Project

**CYD-BWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU**

Dydd Iau, 3ydd Tachwedd 2022 am 10.30am trwy fideo-gynadledda Zoom

---

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Cyng. Barry Mellor | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng. Gwyneth Ellis | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng. Geoff Stewart | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng. David Healey | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng. Dave Hughes | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng. Dafydd Rhys Thomas | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng. Nicola Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng. Dafydd Meurig | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol:**
Sharon Thomas (swyddog lletyol)
Gwawr D - Cyfieithu (cyfieithydd)
Alasdair C Grainger (Grant Thornton)
Laura Whiteway-Bell (Pinsent Mason)
John Bruce (Pinsent Mason)

Cyngor Sir y Fflint
Neal Cockerton (Prif Weithredwr)
Gareth Owens (Prif Swyddog (Llywodraethu))
Katie Wilby (Prif Swyddog (Strydlun a Chludiant))
Tina Roberts (Cyfrifydd Prosiect)
Gill Ainscow (Swyddog Gweinyddol Parc Adfer)
Marlena Masel (Prif Gyfrifydd)

Cyngor Sir Ddinbych
Jamie Lees (Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu)
Tony Ward (Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Amgylchedd a'r Economi)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Andrew Wilkinson (Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth)

Cyngor Gwynedd Council
Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Adran yr Amgylchedd)

Cyngor Sir Ynys Môn
Meirion Edwards (Prif Swyddog Rheoli Gwastraff)

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru
Steffan R Owen (Rheolwr Contract Rhanbarthol)

1. **Ymddiheuriadau**
   Cyng. Mike Priestly (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)

2. **Datgan diddordeb**
   Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

3. **Cymeradwyo Cofnodion Blaenorol**
   Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cydbwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2022 i'w cymeradwyo, a chawsant eu derbyn a'u heilio gan yr aelodau.

   **Camau gweithredu:**
   a. Cadarnhaodd SRO fod y camau gweithredu ar y ganolfan ymwelwyr a'r ystafell addysg yn cael eu datblygu a bod cynnydd yn cael ei wneud gyda'r gronfa budd cymunedol.
   b. Mewn ymateb i gwestiynau, dywedodd TR fod balans y Gronfa Budd Cymunedol ychydig dros £500k ar hyn o bryd.

4. **Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd**
   Enwebwyd ac eiliwyd y Cynghorydd Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint) i gadeirio at ddibenion y cyfarfod hwn, a chefnogwyd hyn gan y Cyd-Bwyllgor.

***Penderfyniad o dan Baragraff 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 i wahardd y wasg a'r cyhoedd.***

5. **Eitemau masnachol (tudalennau 7 – 20)**
   Prif bwrpas y cyfarfod oedd rhoi cefndir llawn a manylion y cynnig a dderbyniwyd oddi wrth Enfinium i'r Cyd-bwyllgor, gan nodi nad oedd cworwm yn y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 10fed Hydref 2022, ac felly ni ellid cymeradwyo unrhyw argymhellion yn ffurfiol yn y cyfarfod blaenorol. Yn y cyfarfod hwnnw, trafodwyd a chytunwyd ar yr angen am ail gyfarfod, a dyna pam y cafwyd y cyfarfod hwn ar 3 Tachwedd 2022.

   Rhoddodd SRO y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor a mynd trwy a papurau a ddosbarthwyd.

   Bu i drafodaeth manwl ddilyn hyn, yn cynnwys mewnbwn gan ymgynghorwyr ariannol a chyfreithiol y Bartneriaeth,

   ***Penderfynwyd:***

   ***a) Rhoi awdurdod dirprwyedig yn amodol ar y terfyn isaf.***
   ***b) Bod y Cyd-bwyllgor yn cael gweld adroddiad ysgrifenedig (nid cyfarfod Cyd-Bwyllgor) cyn llofnodi'r cytundeb.***
   ***c) Bod y mecanwaith y cynnig yn amodol ar benderfyniad diweddarach gan y Cyd-bwyllgor a'i rannu yn unol â'r Cytundeb Rhyng-Awdurdodau.***

6. **Unrhyw Fater Arall**

   Rhoddodd SRO ddiweddariad ar y Gronfa Budd Cymunedol a lansiwyd yn ddiweddar:

1. Cynhaliwyd Digwyddiad Cwrdd â'r Cyllidwr llwyddiannus ar 24.10.2022
2. Anfonwyd 13 o becynnau cais yn dilyn ymholiadau
3. Derbyniwyd 1 cais wedi ei gwblhau hyd yn hyn.

Mae'r dudalen hon yn wag yn bwrpasol

NWRWTP
North Wales Residual Waste Treatment Project

**EITEM AGENDA RHIF: 6**

**ADRODDIAD I:** **CYD-BWYLLGOR PTGGGC**

**DYDDIAD:** **30ain HYDREF 2023**

**ADRODDIAD GAN:** **RHEOLWR Y CONTRACT**

**PWNC:** **ADRODDIAD DIWEDDARU AR Y GWASANAETHAU**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Diweddaru'r Cydbwyllgor ar gynnydd agweddau o weithredu'r Parc Adfer.

## 2. CEFNDIR

2.1. Mae'r Parc Adfer wedi bod yn gwbl weithredol ers bron i 4 blynedd, ac wedi cyrraedd statws gweithredol sefydlog. Mae gweithdrefnau gweithredol a chyfathrebu rhwng gweithredwyr y Parc Adfer, enfinium, a'r Bartneriaeth yn gweithio'n dda heb unrhyw darfu ar gyflenwadau gwastraff yr Awdurdodau Partner.

2.2. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o berfformiad gweithredol y Gwasanaethau ym Mharc Adfer dros gyfnod y Gwasanaethau.

## 3. YSTYRIAETHAU

Gweithrediadau

3.1. Ers cyfarfod diwethaf y Cyd-bwyllgor ym mis Tachwedd 2022, mae gwasanaethau wedi parhau'n ddi-dor heb unrhyw darfu ar gyflenwadau'r awdurdodau, gan gynnwys yn ystod y cau 'cynnal a chadw' blynyddol ym mis Mehefin 2023. Mae'r cyfnod cau cynnal a chadw blynyddol yn gyfnod o bythefnos ym mis Mehefin bob blwyddyn pan fydd y gwaith yn cau ac y rhoddir gorau i brosesu gwastraff, gan ganiatáu cynnal a chadw hanfodol ar yr offer. Mae gwastraff yr Awdurdodau Partner yn cael ei dderbyn yn barhaus yn ystod y cyfnod hwn.

3.2. Mae'r prosesau a'r protocolau gweithredol a chyfathrebu rhwng yr Awdurdod Arweiniol (Cyngor Sir y Fflint) ac enfinium yn parhau i weithio'n effeithiol.

3.3. Mae'r safle hefyd yn parhau i berfformio'n dda iawn o ran ei effeithlonrwydd a'i reolaeth amgylcheddol, gan gynnwys allyriadau. Parhaodd y safle i weithredu o fewn ei Drwydded Amgylcheddol fel y'i cyhoeddwyd ac a reoleiddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae lefelau allyriadau wedi bod ymhell islaw'r lefelau a ganiateir (gweler paragraffau 3.6 – 3.8 isod am ragor o fanylion).

Trwybwn tunelledd

3.4. Adroddwyd i gyfarfodydd blaenorol y Cyd-bwyllgor bod y pandemig Covid-19 wedi arwain at gynnydd mewn tunelledd gan yr Awdurdodau Partner o'r lefelau oedd yn bodoli cyn y pandemig. Yn ystod y flwyddyn 2022/23, gwelwyd gostyngiad mewn tunelledd o'r lefelau uwch hynny, gyda thunelleddau ar gyfer 2023/24 yn tracio ar lefelau tebyg, is, hyd yn hyn.

3.5. Ceir tablau a graffiau sy'n dangos y nifer cymharol o dunelli metrig a lwythwyd i mewn i Barc Adfer ynghlwm yn Atodiad 1 isod.

Caniatâd Amgylcheddol a Monitro Allyriadau

3.6. Fel yr adroddwyd yn flaenorol i'r Cyd-bwyllgor, mae monitro allyriadau o unrhyw gyfleuster Ynni o Wastraff yn rhan hollbwysig o'i weithrediad a chydymffurfiaeth â'r drwydded amgylcheddol berthnasol, fel y'i cyhoeddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yng Nghymru. Mae rheoliadau llym ar waith ar gyfer monitro a lefelau'r holl allyriadau y mae'n rhaid i weithredwyr y gwaith gydymffurfio â hwy, gan gynnwys safonau allyriadau newydd, is, y mae'n rhaid eu cymhwyso yn awr wrth symud ymlaen.

3.7. Mae Parc Adfer wedi parhau i weithredu o fewn ei drwydded amgylcheddol ac wedi dangos yn gyson ei fod yn gweithredu i'r safonau monitro ac allyriadau uchaf posibl a mwyaf modern.

3.8. Ym mis Rhagfyr 2022, cymeradwyodd Cyfoeth Naturiol Cymru drwydded amgylcheddol ddiwygiedig, a oedd yn cynnwys diweddariadau yn ymwneud â safonau allyriadau newydd (gweler 3.7 uchod) yn ogystal â chynnydd yn y trwybwn tunelledd a ganiateir o 200,000 tunnell y flwyddyn i 232,000 y flwyddyn. Daw hyn â'r hawlen yn unol â chapasiti Caniatâd Cynllunio o 232,000 a ddiwygiwyd ym mis Ebrill 2021. Dylid nodi, fodd bynnag, bod y capasiti hwn yn uchafswm damcaniaethol sy'n annhebygol iawn o gael ei gyrraedd mewn gwirionedd. Mae Parc Adfer ar hyn o bryd yn gweithredu ar tua 200,000 tunnell y flwyddyn, ac ni ragwelir y bydd hyn yn debygol o newid yn sylweddol yn y dyfodol rhagweladwy.

Materion gweithredol eraill

3.9. Fel y nodwyd yn 3.1 uchod, mae cyflenwadau gwastraff wedi parhau i ddod i'r safle heb unrhyw broblemau arwyddocaol neu gylchol, gyda'r safle yn perfformio o fewn ei baramedrau gofynnol. Bu Amseroedd Troi o Amgylch y cerbydau ar y safle ymhell islaw'r terfynau cytundebol drwy gydol y cyfnod. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae Amseroedd Troi o Amgylch yn cyfeirio at yr amser y mae'n ei gymryd i gerbydau sy'n cludo gwastraff ei bwyso ar y bont bwyso wrth fynd i mewn i'r safle, gollwng eu llwythi yn y byncer gwastraff, a mynd ar y bont bwyso "allan" i adael y safle. Mae'n fesur o'r amser a gymerir i gerbydau wagio eu llwythi ar y safle. Mesurir hyn gan ddefnyddio data'n uniongyrchol o'r system pont bwyso ar y safle.

3.10. Yn ogystal ag Amseroedd Troi o Amgylch, mesur arall pwysig yw "Amserau Ciwio". Mae hwn yn fesur o ba mor hir y mae cerbydau'n aros ar y safle cyn cael caniatâd i ddadlwytho dros y bont bwyso. Mae'r Bartneriaeth ac enfinium bellach yn monitro'r metrig hwn ar gyfer Cerbydau Casglu Sbwriel ac yn bwriadu cynnal treial o fesur amseroedd ciwio'r cerbydau swmpus (cerbydau nwyddau trwm cymalog mwy sy'n

cludo gwastraff o Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych i'r Parc Adfer). Mae'r Amseroedd Ciwio yn cael eu mesur drwy ddefnyddio system dracio GPS ar y cerbydau, lle mae parth “geofence” wedi'i sefydlu yn y system i fesur pa mor hir mae pob cerbyd wedi bod o fewn y parth hwnnw. Mae'r parth hwn o fynedfa'r safle i ddechrau'r bont bwyso “i mewn”.

3.11. Gyda'i gilydd, mae'r Amseroedd Troi o Amgylch a'r Amseroedd Ciwio yn rhoi darlun llawn o ba mor hir y mae'n ei gymryd i gerbydau gyrraedd y safle, gollwng eu llwythi a gadael y safle. Mae'r ddau yn fetrigau gweithredol pwysig ar gyfer y Bartneriaeth, y cludwyr ac enfinium.

Perfformiad ailgylchu a dargyfeirio gwastraff

3.12. Mae'r Parc Adfer yn cyfrannu at ffigurau ailgylchu a dargyfeirio tirlenwi yr Awdurdodau Partner drwy Ludw Gwaelod Llosgydd (IBA) yr ailgylchu, sy'n cynnwys metelau. Ar gyfer y flwyddyn 2022/23, y lefel ailgylchu gyffredinol a gyflawnwyd oedd 21.3%, sy'n gwbl unol â'r disgwyliadau. Ar gyfer y flwyddyn 2023/24 hyd yma, mae'r lefelau yn 23.1%, eto'n gwbl unol â'r disgwyliadau, ac fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae'r ffigurau hyn yn cyfrannu tua 7% at lefelau ailgylchu'r awdurdodau partner.

Astudiaeth Gwres

3.13. Dywedwyd wrth y Cyd-bwyllgor fod y Bartneriaeth wedi llwyddo i gael grant gan Uned Cyflenwi Rhwydwaith Gwres (HNDU) Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) Llywodraeth San Steffan i ymgynghorwyr arbenigol gynnal astudiaeth i'r defnydd o wres o'r Parc Adfer i adeiladau cyfagos o fewn Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.

3.14. Amcan yr astudiaeth yw gwirio a yw trefniant tynnu gwres o'r Parc Adfer o fudd amgylcheddol ac yn ddamcaniaethol bosibl, yn seiliedig ar asesiad o alw tebygol defnyddwyr, refeniw elw, gwariant cyfalaf a gweithredol. Yn dilyn proses dendro, comisiynwyd Ramboll UK Ltd i gynnal yr astudiaeth.

3.15. Rhennir yr astudiaeth yn ddau gam. Byddai'r cam cyntaf yn dod i ben drwy nodi lle y byddai rhai opsiynau yn anymarferol neu'n anghyraeddadwy a gosod unrhyw opsiynau sy'n weddill yn eu trefn, yn seiliedig ar fudd economaidd ac amgylcheddol. Byddai ail gam yr astudiaeth - y cam dichonoldeb - ond yn mynd rhagddo os yw'r uchod yn dangos bod un neu fwy o gyfleoedd dichonadwy i'w dilyn. Amlinellir y rhain isod:-

- Pecyn Gwaith 1 (WP1) – Astudiaeth Mapio Ynni ac Uwchgynllun
- Pecyn Gwaith 1 (WP2) – Asesiad Dichonoldeb Techno-Economaidd Manwl o'r Senarios a Argymhellir

3.16. Cwblhaodd Ramboll Gam 1 yr astudiaeth ym mis Ionawr 2023, ac adroddwyd ar hyn i'r Bwrdd Prosiect. Nododd yr astudiaeth 3 senario y gellid ymchwilio ymhellach iddynt yn WP2. Roedd y senario a bennwyd fel y senario a argymhellir i'w ymchwilio ymhellach a'i optimeiddio fel rhan o WP2 (Dadansoddiad Techno-Economaidd Manwl) yn cynnwys defnyddwyr gwres posibl i'r Gogledd o Afon Dyfrdwy (Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy), yn ogystal ag i'r de o Afon Dyfrdwy (rhai adeiladau cyhoeddus, Coleg Glannau Dyfrdwy ac ati).

3.17. Mae Ramboll wedi dechrau ail gam yr astudiaeth (WP2), ac maent ar y cam casglu gwybodaeth. Bydd canlyniad WP2 yn cael ei adrodd i'r Cyd-Bwyllgor.

Canolfan Addysg ac Ymwelwyr

3.18. Oherwydd materion nas rhagwelwyd, gohiriwyd y broses dendro ar gyfer y rhaglen addysg yn gynharach yn 2023, ond mae hon bellach wedi'i hailgychwyn. Mae'r tendr ar gyfer:-

- Rhaglen addysg gynhwysfawr sydd nid yn unig yn amlinellu'r Parc Adfer ei hun ac Ynni o Wastraff, ond hefyd lle mae'n sefyll o fewn yr hierarchaeth wastraff;
- Deunyddiau addysgol i gefnogi ymweliadau safle, ac i gefnogi ysgolion ar draws y Bartneriaeth os na allant ymweld â'r safle;
- Cynnwys ar-lein i gefnogi'r rhaglen addysg.

3.19. Adroddir ar y cynnydd ar ddatblygiad y rhaglen addysg i'r Cyd-bwyllgor.

3.20. Mae ymweliadau safle â'r Parc Adfer bellach wedi'u hailddechrau, gyda nifer o ymweliadau gan grwpiau a rhai ymweliadau "prawf" gan nifer fach o ysgolion dros y misoedd nesaf.

Crynodeb Gweithredu

3.21. I grynhoi, mae gweithrediadau a pherfformiad yn y Parc Adfer wedi parhau i wneud yn dda, er gwaethaf y pandemig Covid parhaus. Ni fu unrhyw darfu ar gyflenwadau'r Awdurdodau Partner, mae amseroedd gweithredu yn gyffredinol isel gydag ychydig iawn o oedi wrth gyflenwi, mae lefelau allyriadau wedi bod ymhell islaw'r lefelau a ganiateir ac mae mesurau perfformiad eraill wedi bod yn dda.

Ffurflenni Blynyddol 2022-23 y Cyd-Bwyllgor

3.22. Mae'r Cyd-Bwyllgor yn cael ei gysidro yn gorff perthnasol raddfa lai gan fod ei incwm crynswth yn llai na £2.5m y flwyddyn. Ffurflenni blynyddol a ddarparwyr Swyddfa Archwilio Cymru yw y math o gyfrifon mae cyrff raddfa lai angen ei greu.

3.23. Mae'n rhaid i'r Ffurflenni Blynyddol gael ei arwyddo gan y Swyddog Cyllid Atebol a'i gymeradwyo gan y Cyd-Bwyllgor. Oherwydd amseriad y cyfarfod yma, fe gymeradwyodd y Ffurflenni Blynyddol gan Katie Wilby ar ran y Cyd-Bwyllgor er mwyn cyrraedd y dyddiadau yma.

3.24. Mae'r Ffurflenni Blynyddol ar gyfer 2022/23 wedi'i atodi yn Atodiad 2 er gwybodaeth yr Aelodau. Yn debyg i'r blynyddoedd diwethaf, mae'r gwariant yn swm isel, ond oherwydd gofynion statudol, mae angen creu Ffurflenni Blynyddol.

## 4. ARGYMHELLION

4.1. Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor:-

- Nodi cynnwys yr adroddiad.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Amh.

**6. EFFAITH GWRTH-DLODI**
Amh.

**7. EFFAITH AMGYLCHEDDOL**
Mae effaith amgylcheddol cyfleuster Parc Adfer wedi'i adrodd yn flaenorol i'r Cydbwyllgor.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**
Amh

**9. GOBLYGIADAU PERSONÉL**

9.1. Fel y disgrifir yng nghorff yr adroddiad hwn

**9. ANGEN YMGYNGHORIAD**
Dim.

**10. YMGYNGHORIAD WEDI EI GYNNAL**

10.1. Fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

**DEDDF MYNEDIAD AT WYBODAETH LLYWODRAETH LEOL 1985**

**Dogfennau Cefndir:**

Dim

**Swyddog Cyswllt:** Steffan Owen
Rheolwr Contract
Steffan.r.owen@flintshire.gov.uk

NWRWTP
North Wales Residual Waste Treatment Project

**Atodiad 1 – Partneriaeth PTGGGC - Tunelledd mewnbynnau i Barc Adfer**




Tudalen 12


2023/24 Year to date tonnages
3,000
2,500
2,000
1,500
1,000
500
-
Apr-23
May-23
Jun-23
Jul-23
Aug-23
Anglesey
Conwy
Denbighshire
Flintshire
Gwynedd

Tudalen 13

**2020 – 2023 Cymhariaeth fesul mis**



# Minor Joint Committees in Wales
# Annual Return for the Year Ended 31 March 2023

## Accounting statements 2022-23 for:

**Name of body:** NORTH WALES RESIDUAL WASTE JOINT COMMITTEE

| | Year ending | | Notes and guidance for compilers |
|---|---|---|---|
| | 31 March 2022 (£) | 31 March 2023 (£) | Please round all figures to nearest £. Do not leave any boxes blank and report £0 or nil balances. All figures must agree to the underlying financial records for the relevant year. |
| **Statement of income and expenditure/receipts and payments** | | | |
| **1.** Balances brought forward | 0 | 0 | Total balances and reserves at the beginning of the year as recorded in the financial records. Must agree to line 7 of the previous year. |
| **2.** (+) Income from local taxation/levy | 0 | 0 | Total amount of income received/receivable in the year from local taxation (precept) or levy/contribution from principal bodies. |
| **3.** (+) Total other receipts | 1,599 | 277 | Total income or receipts recorded in the cashbook minus amounts included in line 2. Includes support, discretionary and revenue grants. |
| **4.** (-) Staff costs | 0 | 0 | Total expenditure or payments made to and on behalf of all employees. Include salaries and wages, PAYE and NI (employees and employers), pension contributions and related expenses eg termination costs. |
| **5.** (-) Loan interest/capital repayments | 0 | 0 | Total expenditure or payments of capital and interest made during the year on external borrowing (if any). |
| **6.** (-) Total other payments | 1,599 | 277 | Total expenditure or payments as recorded in the cashbook minus staff costs (line 4) and loan interest/capital repayments (line 5). |
| **7.** (=) Balances carried forward | 0 | 0 | Total balances and reserves at the end of the year. Must equal (1+2+3) – (4+5+6). |
| **Statement of balances** | | | |
| **8.** (+) Debtors | 920 | 550 | **Income and expenditure accounts only:** Enter the value of debts owed to the body. |
| **9.** (+) Total cash and investments | 0 | 0 | **All accounts:** The sum of all current and deposit bank accounts, cash holdings and investments held at 31 March. This must agree with the reconciled cashbook balance as per the bank reconciliation. |
| **10.** (-) Creditors | 920 | 550 | **Income and expenditure accounts only:** Enter the value of monies owed by the body (except borrowing) at the year-end. |
| **11.** (=) Balances carried forward | 0 | 0 | **Total balances should equal line 7 above:** Enter the total of (8+9-10). |
| **12.** Total fixed assets and long-term assets | 0 | 0 | The asset and investment register value of all fixed assets and any other long-term assets held as at 31 March. |
| **13.** Total borrowing | 0 | 0 | The outstanding capital balance as at 31 March of all loans from third parties (including PWLB). |

## Annual Governance Statement

We acknowledge as the members of the Committee, our responsibility for ensuring that there is a sound system of internal control, including the preparation of the accounting statements. We confirm, to the best of our knowledge and belief, with respect to the accounting statements for the year ended 31 March 2023, that:

| | Agreed? | | 'YES' means that the Council/Board/Committee: | PG Ref |
|---|---|---|---|---|
| | Yes | No* | | |
| **1.** We have put in place arrangements for:<br>• effective financial management during the year; and<br>• the preparation and approval of the accounting statements. | ◉ | ○ | Properly sets its budget and manages its money and prepares and approves its accounting statements as prescribed by law. | 6, 12 |
| **2.** We have maintained an adequate system of internal control, including measures designed to prevent and detect fraud and corruption, and reviewed its effectiveness. | ◉ | ○ | Made proper arrangements and accepted responsibility for safeguarding the public money and resources in its charge. | 6, 7 |
| **3.** We have taken all reasonable steps to assure ourselves that there are no matters of actual or potential non-compliance with laws, regulations and codes of practice that could have a significant financial effect on the ability of the Committee to conduct its business or on its finances. | ◉ | ○ | Has only done things that it has the legal power to do and has conformed to codes of practice and standards in the way it has done so. | 6 |
| **4.** We have provided proper opportunity for the exercise of electors' rights in accordance with the requirements of the Accounts and Audit (Wales) Regulations 2014. | ◉ | ○ | Has given all persons interested the opportunity to inspect the body's accounts as set out in the notice of audit. | 6, 23 |
| **5.** We have carried out an assessment of the risks facing the Committee and taken appropriate steps to manage those risks, including the introduction of internal controls and/or external insurance cover where required. | ◉ | ○ | Considered the financial and other risks it faces in the operation of the body and has dealt with them properly. | 6, 9 |
| **6.** We have maintained an adequate and effective system of internal audit of the accounting records and control systems throughout the year and have received a report from the internal auditor. | ◉ | ○ | Arranged for a competent person, independent of the financial controls and procedures, to give an objective view on whether these meet the needs of the body. | 6, 8 |
| **7.** We have considered whether any litigation, liabilities or commitments, events or transactions, occurring either during or after the year-end, have a financial impact on the Committee and, where appropriate, have included them on the accounting statements. | ◉ | ○ | Disclosed everything it should have about its business during the year including events taking place after the year-end if relevant. | 6 |
| **8.** We have taken appropriate action on all matters raised in previous reports from internal and external audit. | ◉ | ○ | Considered and taken appropriate action to address issues/weaknesses brought to its attention by both the internal and external auditors. | 6, 8, 23 |

* Please provide explanations to the external auditor on a separate sheet for each 'no' response given; and describe what action is being taken to address the weaknesses identified.

## Additional disclosure notes*

**The following information is provided to assist the reader to understand the accounting statements and/or the Annual Governance Statement**

**Total % Share of JC costs for 22/23**

| | Tonnes | % | Expenditure |
|---|---|---|---|
| **Anglesey** | 14,490.34 | 12.93% | £ 35.87 |
| **Conwy** | 20,017.62 | 17.87% | £ 49.55 |
| **Denbighshire** | 19,401.30 | 17.32% | £ 48.02 |
| **Flintshire** | 31,425.71 | 28.05% | £ 77.78 |
| **Gwynedd** | 26,697.37 | 23.83% | £ 66.08 |
| | 112,032.34 | 100.00% | £ 277.30 |

**2.**

**3.**

* Include here any additional disclosures the Council considers necessary to aid the reader's understanding of the accounting statements and/or the annual governance statement.

## Committee approval and certification

The Committee is responsible for the preparation of the accounting statements and the annual governance statement in accordance with the requirements of the Public Audit (Wales) Act 2004 (the Act) and the Accounts and Audit (Wales) Regulations 2014.

| **Certification by the RFO**<br>I certify that the accounting statements contained in this Annual Return present fairly the financial position of the Committee, and its income and expenditure, or properly present receipts and payments, as the case may be, for the year ended 31 March 2023. | **Approval by the Council/Board/Committee**<br>I confirm that these accounting statements and Annual Governance Statement were approved by the Committee under minute reference:<br>**Minute ref:** |
|---|---|
| **RFO signature:** | **Chair of meeting signature:** |
| **Name:** GARY FERGUSON | **Name:** KATIE WILBY |
| **Date:** 21.06.23 | **Date:** 26.06.2023 |

## Annual internal audit report to:

**Name of body:** NORTH WALES RESIDUAL WASTE JOINT COMMITTEE

The Committee's internal audit, acting independently and on the basis of an assessment of risk, has included carrying out a selective assessment of compliance with relevant procedures and controls expected to be in operation during the financial year ending 31 March 2023.

The internal audit has been carried out in accordance with the Committee's needs and planned coverage. On the basis of the findings in the areas examined, the internal audit conclusions are summarised in this table. Set out below are the objectives of internal control and the internal audit conclusions on whether, in all significant respects, the following control objectives were being achieved throughout the financial year to a standard adequate to meet the needs of the Committee.

| | Agreed? | | | | Outline of work undertaken as part of the internal audit (NB not required if detailed internal audit report presented to body) |
|---|---|---|---|---|---|
| | Yes | No* | N/A | Not covered** | |
| **1.** Appropriate books of account have been properly kept throughout the year. | ◉ | ○ | ○ | ○ | Insert text |
| **2.** Financial regulations have been met, payments were supported by invoices, expenditure was approved and VAT was appropriately accounted for. | ◉ | ○ | ○ | ○ | Insert text |
| **3.** The body assessed the significant risks to achieving its objectives and reviewed the adequacy of arrangements to manage these. | ◉ | ○ | ○ | ○ | Insert text |
| **4.** The annual precept/levy/resource demand requirement resulted from an adequate budgetary process, progress against the budget was regularly monitored, and reserves were appropriate. | ○ | ○ | ◉ | ○ | Insert text |
| **5.** Expected income was fully received, based on correct prices, properly recorded and promptly banked, and VAT was appropriately accounted for. | ◉ | ○ | ○ | ○ | Insert text |
| **6.** Petty cash payments were properly supported by receipts, expenditure was approved and VAT appropriately accounted for. | ○ | ○ | ◉ | ○ | Insert text |
| **7.** Salaries to employees and allowances to members were paid in accordance with minuted approvals, and PAYE and NI requirements were properly applied. | ○ | ○ | ◉ | ○ | Insert text – No Salaries paid |
| **8.** Asset and investment registers were complete, accurate, and properly maintained. | ○ | ○ | ◉ | ○ | Insert text |

| | Agreed? | | | | Outline of work undertaken as part of the internal audit (NB not required if detailed internal audit report presented to body) |
|---|---|---|---|---|---|
| | Yes | No* | N/A | Not covered** | |
| **9.** Periodic and year-end bank account reconciliations were properly carried out. | X | | | | Insert text |
| **10.** Accounting statements prepared during the year were prepared on the correct accounting basis (receipts and payments/income and expenditure), agreed with the cashbook, were supported by an adequate audit trail from underlying records, and where appropriate, debtors and creditors were properly recorded. | X | | | | Insert text |

| For any risk areas identified by the Council/Board/Committee (list any other risk areas below or on separate sheets if needed) adequate controls existed: | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Agreed? | | | | Outline of work undertaken as part of the internal audit (NB not required if detailed internal audit report presented to body) |
| | Yes | No* | N/A | Not covered** | |
| **11.** Insert risk area | | | X | | Insert text |
| **12.** Insert risk area | | | X | | Insert text |
| **13.** Insert risk area | | | X | | Insert text |

* If the response is 'no', please state the implications and action being taken to address any weakness in control identified (add separate sheets if needed).

** If the response is 'not covered', please state when the most recent internal audit work was done in this area and when it is next planned, or if coverage is not required, internal audit must explain why not.

During 2022/23 NWRW did not have its own separate book of accounts, bank account etc as they were part of the Flintshire Financial systems. During 2022/23 Internal Audit reviewed Financial Management Accounting, Corporate Grants, CIPFA FM Code and MTFS Supporting method statements. NWRW Risk Register was not covered. The Annual Internal Audit report is formed based on the overall work completed during 2022/23 which was presented to the Governance and Audit Committee on the 14$^{th}$ June 2023.

## Internal audit confirmation

I confirm that as the Committee's Internal Auditor Manager, I have not been involved in a management or administrative role within the body (including preparation of the accounts) or as a member of the body during the financial years 2021-22 and 2022-23. I also confirm that there are no conflicts of interest surrounding my appointment.

| | |
|---|---|
| **Name of person who carried out the internal audit:** | **Lisa Brownbill** |
| **Signature of person who carried out the internal audit:** |  |
| **Date:** | **19.06.2023** |

Mae'r dudalen hon yn wag yn bwrpasol

# Cyfle CCS ym Mharc Adfer

30 Hydref 2023



# Cyflwyniad

enfinium

- Ers dros flwyddyn, mae enfinium yn archwilio'r potensial i osod technoleg dal a storio carbon (CCS) ym Mharc Adfer.
- Byddai gosod CCS ym Parc Adfer yn ein galluogi i ddal o leiaf 90% o'r carbon deuocsid ($CO_2$) y mae'r cyfleuster yn ei gynhyrchu ar hyn o bryd wrth drawsnewid gwastraff na ellir ei ailgylchu yn ynni.
- Ar ôl ei ddal, byddai'r $CO_2$ yn cael ei gludo'n ddiogel ar y biblinell i Fae Lerpwl i'w storio'n barhaol o dan y môr.
- Gallai Llywodraeth y DU gefnogi'r buddsoddiad cyfalaf a'r costau gweithredol a fyddai'n gysylltiedig ag adeiladu a rhedeg yr offer dal carbon.
- Mae'r rownd nesaf ar gyfer prosiectau i wneud cais i raglen dewis prosiectau CCS Llywodraeth y DU ar fin agor ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2023 ac yn cau ym mis Mawrth 2024.
- **Yn seiliedig ar ein gwaith hyd yma, credwn y byddai prosiect CCS ym Mharc Adfer yn gystadleuol iawn o safbwynt cynnig, yn gyflawnadwy iawn ac yn trawsnewid yr economi gwastraff yng ngogledd Cymru.**

# Cyfle CCS ym Mharc Adfer

Drwy osod technoleg dal carbon ym Mharc Adfer, gallem:

- **Ddatgarboneiddio gwastraff na ellir ei ailgylchu** ac a gynhyrchir ar draws gogledd Cymru, yn awr ac yn y dyfodol.

- Cefnogi **twf economaidd, sgiliau a chyflogaeth yn yr economi werdd** yn ystod y cyfnod adeiladu a chyfnod gweithredol y prosiect.

- Cynhyrchu **pŵer carbon negyddol** a all gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i gael 100% o bŵer di-garbon erbyn 2035.

- Cynhyrchu **~100,000 tunnell o 'warediadau carbon' neu 'allyriadau negyddol' y flwyddyn** o'n $CO_2$ biogenig a ddaliwyd, gan osod yn erbyn allyriadau mewn mannau eraill yn Sir y Fflint.

# Beth yw Dal a Storio Carbon?




***Source: Aker Carbon Capture***

# Integreiddio Gogledd Cymru i glwstwr CCS HyNet




Tudalen 25

# Mae Parc Adfer wedi'i leoli nid nepell o'r biblinell $CO_2$ HyNet arfaethedig

enfinium



# Llwybr ar gyfer cymorth Llywodraeth y DU i Barc Adfer yn CCS

| | |
|---|---|
| Tachwedd 23 – Mawrth 24 | • Llywodraeth y DU yn agor ffenestr gynnig (Ehangu Trac-1) ar gyfer prosiectau sy'n ceisio cysylltu â rhwydwaith HyNet CCS |
| Mawrth – Mehefin 2024 | • Adolygu ceisiadau cymwys a thystiolaeth ategol |
| Haf 2024 | • Gwiriad sicrwydd a llunio rhestr fer |
| Hydref 2024+ | • Diwydrwydd dyladwy a thrafodaethau masnachol dwyochrog |
| H2 2025 / H1 2025 | • Dyfarnu contract a Phenderfyniad Buddsoddi Terfynol |
| 2030 | • Cyfleuster CCS wedi'i gomisiynu ac yn weithredol |

Tudalen 27

# Yn gryno

- Gallai gosod CCS ym Mharc Adfer **helpu i gyflawni nifer o nodau polisi Llywodraeth Cymru** ar ynni, yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd.

- Byddai hefyd **yn cefnogi'r awdurdodau ar y cyd** i gyflawni eu strategaethau, targedau ac uchelgeisiau newid hinsawdd eu hunain.

- Byddai'n cyfrannu at **dwf economaidd, sgiliau a chyflogaeth yn yr economi werdd** yng ngogledd Cymru.

- Mae cylch dyrannu Ehangu Trac-1 sydd ar ddod **yn ffenestr gyfle sylweddol** i sicrhau cymorth Llywodraeth y DU i'r prosiect.

# DIOLCH

Mae'r dudalen hon yn wag yn bwrpasol

# Eitem ar gyfer y Rhaglen 8

Yn rhinwedd paragraff(au) 14 of Part 4 of Schedule 12A
o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Dogfen Gyfyngedig - Ni ddylid ei chyhoeddi

Mae'r dudalen hon yn wag yn bwrpasol